PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD IAU, 9 MAWRTH 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McKerlich(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Dilwar Ali, Howells, Hyde, Keith Jones a/ac Simmons |

50 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dywedodd y Cadeirydd y câi'r cyfarfod cyfan ei ffilmio ar gyfer ei we-ddarlledu, heblaw am pan fyddai eitemau cyfrinachol neu eithriedig.

Roedd y Cynghorydd Howells wedi dweud o'r blaen y byddai'n hwyr yn dod i'r cyfarfod oherwydd ymrwymiadau gwaith.

51 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw rai.

52 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2017 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

53 : CYNLLUN ADFYWIO SGWÂR CANOLOG

Atgoffwyd aelodau fod Atodiadau 2, 3, 4 a 5 i Atodiad A yr adroddiad yn eithriedig rhag eu cyhoeddi oherwydd eu bod yn cynnwys gwybodaeth o'r fath a ddisgrifir ym mharagraffau 14 a 21 o rannau 4 a 5 Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Y barn oedd, ym mhob amgylchiad yr achos, mae buddiant y cyhoedd o ran cadw'r eithriad yn gorbwyso buddiant y cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.

Efallai y bydd yn angenrheidiol i aelodau'r wasg a'r cyhoedd adael yr ystafell gyfarfod er mwyn i'r Pwyllgor a'r tystion drafod yr wybodaeth sydd yn yr atodiadau cyfrinachol.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Phil Bale (Arweinydd, Datblygu Economaidd a Phartneriaethau), Neil Hanratty, (Cyfarwyddwr – Datblygu Economaidd) John Worrall (Pennaeth Projectau Mawr) i'r cyfarfod.

***Yna aeth y cyfarfod yn sesiwn gaeedig er mwyn ystyried eitemau cyfrinachol.***

PENDERFYNWYD y câi barn y Pwyllgor ei thrafod yn ystod adran y cyfarfod sy'n trafod y ffordd ymlaen ac y câi llythyr ei anfon at yr Arweinydd maes o law.

54 : CHWARTER 3 2016/17 – MONITRO PERFFORMIAD

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Phil Bale (Arweinydd, Datblygu Economaidd a Phartneriaethau), y Cynghorydd Peter Bradbury (Aelod y Cabinet, Datblygu Cymunedol, Cydweithfeydd a Menter Gymdeithasol) a Neil Hanratty (Cyfarwyddwr – Datblygu Economaidd) i'r cyfarfod.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar Berfformiad yn Chwarter 3 a gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

- Gofynnodd yr Aelodau pwy oedd yn gyrru datblygu diwydiant creadigol yn Sied 'C'.  Dywedodd y Swyddogion mai Associated British Ports oedd perchnogion yr adeilad. Bu trafodaethau'n mynd yn eu blaen gydag Igloo a oedd yn berchnogion yr adeilad cyfagos a pherchnogion Datblygiad y Tramshed, am adleoli'r ffordd i'r tu ôl i'r adeilad er mwyn mynediad y cyhoedd. Roedd cost yn gysylltiedig â hyn ac roedd gwahanol ffyrdd o gael trafnidiaeth gyhoeddus i'r adeilad yn cael eu hystyried.

  Ychwanegodd yr Arweinydd mai dyma oedd un o adeiladau hŷn y Bae; roedd cynnydd yn cael ei wneud ac roedd yn gyfle i ddefnyddio'r lle yn greadigol pe gallai'r trefniadau mynediad ychwanegol gael eu datrys.

PENDERFYNWYD y câi barn y Pwyllgor ei thrafod yn ystod adran y cyfarfod sy'n trafod y ffordd ymlaen ac y câi llythyr ei anfon at yr Arweinydd a'r Aelod Cabinet maes o law.

55 : GŴYL CELFYDDYDAU CAERDYDD GYFOES 2016

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Peter Bradbury, Aelod Cabinet (Datblygu Cymunedol, Cydweithfeydd a Menter Gymdeithasol,) Kath Richards (Pennaeth Diwylliant, Lleoliadau a Digwyddiadau) a Ruth Cayford (Rheolwr Celfyddydau Gweledol) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad a dywedodd ei fod yn newyddion da i gyd; bu'r digwyddiad yn llwyddiannus iawn a bu cynnydd yn nifer yr ymwelwyr o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Ychwanegodd fod hyn oherwydd gwaith rhagorol Ruth Cayford a'i thîm a lwyddodd i gynnal y digwyddiad gydag ychydig iawn o gyllideb.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar Ŵyl Gyfoes Caerdydd 2016 ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Gofynnodd yr aelodau a oedd unrhyw ffordd o ganfod nifer y bobl a ymwelodd â'r Ŵyl o'r tu allan i Gaerdydd.  Esboniodd y Swyddogion ei fod yn anodd gwneud hynny, oherwydd nid oes ganddynt y gallu i ymgymryd â chyfweliadau unigol a phennu'r wybodaeth hon.  Mae tystiolaeth storïol o sgyrsiau gyda'r rhai sy'n ymgysylltu â'r ŵyl yn dangos bod ymwelwyr wedi dod o leoedd sy'n cynnwys Tsieina, Siapan, Glasgow, Lerpwl a Ffrainc.

- Gofynnodd yr aelodau beth oedd nesaf ac a fyddai gŵyl yn 2018.  Dywedodd y swyddogion y byddai cyfnod o fyfyrio nawr; mae'n bosibl y byddant yn edrych ar y pensaernïaeth a'r dyluniad a hefyd yn edrych ar adnoddau a chyllid.  Ychwanegon nhw y byddai fodd bynnag, angen cefnogaeth y Cyngor,

gan bwysleisio’r effaith gadarnhaol y mae’r ŵyl yn ei chael ar y Ddinas. Mae trafodaethau ar y gweill gyda’r Tate, Tate Modern a’r Turner Prize ac roeddent i gyd wedi mynegi diddordeb.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet bod sgyrsiau yn cael eu cynnal ar draws y sector diwydiannol yng Nghaerdydd. Ychwanegodd ei fod yn edmygu'r gwaith a wnaed a’r ffaith bod yr ŵyl wedi'i chreu ar bron dim cyllideb; roedd hwn yn faes hollol ddisgresiynol ac roedd eisoes wedi teimlo effaith yr arbedion.

- Gofynnodd yr aelodau sut mae Gŵyl Gyfoes Caerdydd yn cymharu â Gŵyl Caeredin. Dywedodd y Swyddogion na ellid ei chymharu â Chaerdin mewn gwirionedd, ond gwnaed cymariaethau â Lerpwl a Glasgow, yr oedd gan y ddwy ddinas dîm staff a chyllidebau mwy; roedd Caerdydd wedi tynnu sylw a oedd yn gyfartal â’r ddwy.

- Gofynnodd yr Aelodau a gododd prisiau yn ystod yr ŵyl a chawsant wybod bod grymoedd y farchnad yn gyrru prisiau’r gwestai, ni ddigwyddodd hyn yn y digwyddiad hwn.

- Gofynnodd yr Aelodau a ddefnyddiwyd y Tramshed yn ystod yr Ŵyl a chawsant wybod na chafodd ei ddefnyddio y tro hwn ond cafodd ei ddefnyddio yn y gorffennol a denodd ddigon o ddiddordeb.

- O ran graddfeydd amser ac amserlenni cynllunio, gofynnodd yr Aelodau pryd dechreuodd y swyddogion gynllunio Gŵyl 2016.
- Dywedodd y Swyddogion mai mis Rhagfyr 2015 oedd hi, ond pe bai’r Ŵyl i fynd yn ei blaen yn 2018, byddent eisiau dechrau cynllunio nawr a chael amser paratoi o 2 flynedd.

  Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod angen ymrwymiad ar draws y pleidiau er mwyn cadw’r Celfyddydau i ffynnu yn y Ddinas oherwydd bod enw am ragoriaeth eisoes yn cael ei sefydlu yng Nghaerdydd.

PENDERFYNWYD y câi barn y Pwyllgor ei thrafod yn ystod y rhan o’r cyfarfod sy'n trafod y ffordd ymlaen ac y câi llythyr ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

## 56 : GRWPIAU CYFEILLION A GWIRFODDOLWYR MEWN PARCIAU

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Bob Derbyshire (Aelod Cabinet – Amgylchedd), Nicola Hutchinson (Swyddog Cadwraeth), Martine Chamberlain (Cyfeillion Fferm y Goedwig), Steve Bool (Cyfeillion Parc Mynydd Bychan) i’r cyfarfod

Gwahoddodd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle y dywedodd ei bod yn stori gadarnhaol iawn i’w hadrodd ac roedd e eisiau achub y cyfle i ddiolch yr holl grwpiau cyfeillion, oherwydd hebddynt ni fyddai parciau Caerdydd yn lleoedd bendigedig fe y maent heddiw. Yn y dyfodol a chyda rhagor o doriadau ar y gorwel, byddai angen y grwpiau cyfeillion a’r gwirfoddolwyr yn fwy byth.

Rhoddwyd cyflwyniad i’r Aelodau ar Grwpiau Cyfeillion a Gwirfoddoli ac wedyn gwahoddwyd y Cadeirydd sylwadau gan gynrychiolwyr y Grwpiau Cyfeillion.

Dywedodd Steve Bool (Cyfeillion Parc Mynydd Bychan) y bu'n weithredol yn y grŵp ers 25 mlynedd; roedd ysbryd cymunedol go iawn i'r grŵp, roedd yn darparu cyfleoedd ar gyfer ysgolion, y gymuned a phobl o dan anfantais i gyfranogi, bob amser o dan awdurdodaeth Staff y Cyngor, Yswiriant, Iechyd a Diogelwch ayyb.

Ychwanegodd ei fod yn canmol y Gwasanaeth Ceidwaid yn dwymgalon, ond roedd yn pryderi bod cefnogaeth yn dechrau lleihau, a bod materion megis sbwriel a chŵn yn baeddu yn cynyddu. Darparwyd rhai o'r cynlluniau cadarnhaol a oedd wedi deillio o'r gweithio cydweithiol mewn partneriaethau eu darparu megis yr ardd synhwyraidd ym Mharc Mynydd Bychan ac Atal Llifogydd ym Mhontcanna.

Dywedodd Martin Chamberlain (Cyfeillion Fferm y Goedwig) y bydd ond yn mynd â gwirfoddolwyr i Fferm y Goedwig pe bai ceidwaid gyda nhw oherwydd y sgiliau, gwybodaeth ac yswiriant a oedd eu hangen. Roedd ganddo bryderon na fyddai'n gallu parhau â digwyddiadau a phrojectau sy'n defnyddio gwirfoddolwyr heb gefnogaeth ceidwaid barhaus.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet, ers iddo gymryd y portffolio drosodd, ei fod wedi dweud yn glir fod Ceidwaid Cymunedol yn hanfodol i wasanaeth y Parciau a bod angen eu cadw. Yn y gyllideb ar gyfer 2017/18 roedd yr un nifer ag o'r blaen oherwydd hebddynt, ni allai'r grwpiau cyfeillion a'r gwirfoddolwr barhau.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Gofynnodd yr Aelodau faint o Geidwaid Cymunedol oedd a chawsant wybod bod pump, fodd bynnag deg swydd yw cyfanswm y Ceidwaid Cymunedol a Chadwraeth; roedd Ceidwaid Trefol ac roedd y rhain wedi cael y gwaethaf o'r toriadau o'r blaen ac ni ellid galw arnynt bellach am gefnogaeth gyda phrojectau mwy, gan olygu bod y grwpiau cyfeillion a'r gwirfoddolwyr yn fwy angenrheidiol fyth.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd Cyfeillion Fferm y Goedwig wedi gweithio gyda Chyfeillion Parc Hayley yn Ystum Taf a dywedwyd eu bod wedi sefydlu'r grŵp cyfeillion hwnnw, yn gweithio'n agos ar y dechrau ac wedyn yn darparu gwasanaeth bydis ar ôl hynny. Roedd y gefnogaeth hon hefyd yn agored i eraill.

- Gwnaeth yr Aelodau longyfarch y grwpiau Cyfeillion ar y gwaith a wnaed hyd yn hynn a gofyn beth oedd yn cael ei wneud i annog carfan fwy amrywiol o wirfoddolwyr er mwyn annog amrywiaeth. Esboniodd y swyddogion eu bod yn ceisio annog sefydliadau lleol a grwpiau cymunedol; gallai weithiau fod yn anodd oherwydd gwahaniaethau diwylliannol ac mae'n allweddol gweithio gyda grwpiau maent yn gyfarwydd â nhw a phobl maent yn eu hadnabod eisoes.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd llawer o bobl ifanc yn gwirfoddoli a dywedwyd wrthynt fod y gwirfoddolwyr o bob oedran ond yn bennaf pobl sydd ag amser rhydd i'w roi. Roedd gwaith yn cael ei wneud trwy Fagloriaeth Cymru, Dug Caeredin a Phrofiadau Gwaith Myfyrwyr; hefyd yn archwilio prentisiaethau a datblygu cyrsiau gwirfoddoli ymarferol.

PENDERFYNWYD y câi barn y Pwyllgor ei thrafod yn ystod adran y cyfarfod sy'n trafod y ffordd ymlaen ac y câi llythyr ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

## 57 : CYNLLUN ADFYWIO SGWÂR CANOLOG

## 58 : ADRODDIAD BLYNYDDOL - PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor a chawsant wybod y câi'r drafft ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu cynnwys y cyfarfod. Roedd yr aelodau'n awyddus i ychwanegu eu cefnogaeth am waith a wneir gan y Grwpiau Cyfeillion a'r Gwirfoddolwyr mewn Parciau a hefyd y swyddogion a gymerodd ran yng Ngŵyl Celfyddydau Cyfoes 2016.

Gofynnwyd i'r Aelodau anfon unrhyw ddiwygiadau neu sylwadau i'r Swyddog Craffu.

PENDERFYNWYD – i gymeradwyo Adroddiad drafft Blynyddol y Pwyllgor Craffu Economi a Diwylliant 2015/16 i'w gyflwyno i'r Cyngor, yn amodol ar y cynhwysion uchod.